Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

07.03.25

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Hoffwn eich atgoffa y **bydd yr ysgol ar gau i'r disgyblion ar ddydd Gwener y 14eg o Fawrth** gan y bydd yn ddiwrnod hyfforddiant staff. Bydd yr ysgol yn ail agor i'r disgyblion ar ddydd Llun Mawrth y 17eg.

Wythnos bwyta'n iach – Bydd wythnos sy'n cychwyn 10fed o Fawrth yn wythnos bwyta'n iach a byddwn yn cymryd rhan yn ymgyrch 'Bwyta'r Llysiau i'w Llethu'. Bydd y plant yn derbyn pecyn sy'n cynnwys cystadleuaeth y gallent gymryd rhan ynddo. Hoffem hefyd annog rhieni/gofalwyr i hybu byrbrydau iachus ar gyfer egwyl bore yn ogystal â bocsys bwyd iachus.

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i rieni 23-24 – Mae Bwrdd Llywodraethol yr ysgol yn falch o gyflwyno adroddiad blynyddol y Bwrdd Llywodraethol i rieni ar gyfer digwyddiadau y flwyddyn ysgol 23-24. Mae crynodeb o'r adroddiad i'w weld ar wefan yr ysgol. Os dymunwch gael copi caled o'r adroddiad llawn, yna a fyddech cystal â chysylltu â swyddfa'r ysgol. Os hoffech drafod cynnwys yr adroddiad gyda'r Bwrdd Llywodraethol mewn cyfarfod yna dylech hysbysu Mrs S Kelsall yn swyddfa'r ysgol cyn Mawrth yr 17eg. Cynhelir cyfarfod os bydd 10% neu fwy o rieni yn gwneud cais a byddwn yn rhoi gwybod i chi am yr amser a'r trefniadau mewn da bryd.

Beics – Rydym yn awyddus i annog iechyd a ffitrwydd ein disgyblion, ac mae beicio i'r ysgol yn ffordd wych i hybu hyn. Os yw eich plentyn yn defnyddio'r beic i ddod i'r ysgol, ac os nad yw eich plentyn yn ddisgybl blwyddyn 6, gofynnwn i chi drefnu fod eich plentyn yn cael ei oruchwylio gan oedolyn wrth deithio i'r ysgol ac adref o'r ysgol ar feic. Byddwn hefyd yn annog i bob plentyn wisgo helmed ddiogelwch. **Ni roddir caniatâd i feics na sgwteri gael ei reidio ar fuarth yr ysgol ac ar y llwybrau cerdded ar ddiwedd y dydd gan fod hon yn ardal brysur gyda nifer o rieni a gofalwyr yn ymgynnull wrth gasglu plant. Diolch.**

Diwrnod y llyfr – Diolch i'r plant am ddangos diddordeb mewn llyfrau a chymeriadau amrywiol fel rhan o ddathliadau diwrnod y llyfr. Bydd pob plentyn yn derbyn taleb gwerth £1 y gellir ei ddefnyddio tuag at brynu llyfr o'i dewis.

Eisteddfod yr Urdd – Pob lwc i'r plant fydd yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth eisteddfod yr Urdd. Rydym yn dymuno yn dda iddynt yn y cystadlaethau gwahanol.

Yn gywir,

Rhodri Jones
Pennaeth/Headteacher